GOFAL YCHWANEGOL

Maes y Môr

Cymuned Gefnogol

Tai Wales & West Housing

CYFLWYNIAD

Maes y Môr yw cynllun gofal ychwanegol cyntaf Tai Wales & West yng Ngheredigion, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion.

Yn gymuned gefnogol o 56 o fflatiau un a dwy ystafell wely, mae Maes y Môr yn cynnig gwasanaeth gofal a chymorth 24/7 ar y safle gyda bwyty a chyfleusterau cymunol yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a mwynhau diddordebau a rennir.

AM TAI WALES & WEST

Mae gan Tai Wales & West weledigaeth i gyflawni twf cynaliadwy cryf i wneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau pobl.

Rydym yn rheoli dros 12,000 o gartrefi fforddiadwy ac o ansawdd uchel mewn ardaloedd 15 o awdurdodau lleol ar draws Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys dros 3,000 eiddo pwrpasol ar gyfer pobl hŷn, yn ogystal â datrysiadau tai â chymorth arloesol i bobl sydd ag amrediad o anghenion penodol.

Rydym yn gwrando ar ein cwsmeriaid er mwyn deall yr hyn sy'n bwysig o'u safbwynt nhw, fel y gallwn ddarparu'r hyn sy'n bwysig iddynt.

LLEOLIAD

Aberystwyth yw un o'r trefi mwyaf ar arfordir Gorllewin Cymru, sy'n fwyaf adnabyddus am ei phrifysgol, promenâd Fictoraidd a chartref Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae gan y dref amrywiaeth o siopau a chaffis annibynnol ac amwynderau hanfodol fel meddygfeydd teulu a phrif ysbyty'r rhanbarth.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth da yn darparu mynediad i Aberteifi, Machynlleth a'r Amwythig. Mae Maes y Môr wedi'i leoli yn ardal Pen yr Angor yn y dref, gyda golygfeydd godidog dros Harbwr Aberystwyth a chanol y dref.

Cyfeiriad: Maes y Môr, Pen yr Angor, Trefechan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1BZ

Cyfarwyddiadau: Lleolir Maes y Môr oddi ar Heol Penparcau (yr A487) yn agos i Harbwr Aberystwyth.

BETH YW TAI GOFAL YCHWANEGOL?

Mae Maes y Môr yn cynnig cartref eich hun o fewn cymuned gefnogol ofalgar, wedi'i wella gan ei leoliad a chymuned ehangach Aberystwyth.

- Eich fflat 1 neu 2 ystafell wely eich hun
- Cyfleusterau cymunol a rennir
- Darpariaeth gwasanaeth rheoli adeilad a thai
- Pryd 3 chwrs dyddiol a ddarparir gan y bwyty ar y safle
- Gofal a chymorth 24/7 ar y safle a gwasanaeth ymateb brys
- Cymuned gefnogol sy'n cynnig rhyngweithio cymdeithasol, diddordebau a rennir a chysylltiadau â'r gymuned ehangach

CYMUNED GEFNOGOL

Ym Maes y Môr byddwch yn cael cyfle i fyw yn eich cartref eich hun gyda'ch drws ffrynt eich hun ac yn cael y rhyddid i wneud eich dewisiadau eich hun a chael rheolaeth dros eich bywyd eich hun.

Gallwch gael tawelwch meddwl gan wybod eich bod yn byw mewn amgylchedd diogel gyda gofal a chymorth a ddarperir gan dîm ar y safle o wynebau cyfarwydd gyda sicrwydd gwasanaeth ymateb brys 24 awr.

Gellir darparu cymorth yn hyblyg i sicrhau y gallwch gael cefnogaeth mewn ffordd sy'n addas i'ch anghenion unigol chi.

Mae yna amrywiaeth o leoedd hardd i chi ymlacio ynddynt a mwynhau eich hoff diddordebau; ardaloedd eistedd atriwm deniadol, bwyty gydag ardal lolfa a golygfeydd ysblennydd o'r môr sy'n newid gyda'r tymhorau.

FFLATIAU

Mae Maes y Môr yn cynnwys 56 o fflatiau un a dwy ystafell wely sy'n cael eu rhentu a'u gosod dan denantiaeth fyrddaliadol sicr, gan gynnig sicrwydd o ran deiliadaeth i bobl.

Mae pob fflat yn cynnwys y canlynol:

- 1 neu 2 ystafell wely
- Lolfa eang
- Ystafell gawod cerdded i mewn gysylltiedig
- Cegin osod gyfoes sy'n cynnwys safle bwyta a lle i gadw cyfarpar
- Cypyrddau storio defnyddiol
- Pwyntiau ffôn ac erial
- Technoleg gynorthwyol
- Gorchudd llawr yn y gegin a'r ystafell ymolchi
- Mae gan rai fflatiau falconïau a mynediad i fannau allanol

CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

Mae yna nifer o ardaloedd pwrpasol ym Maes y Môr yn ogystal â mannau croesawgar sy'n darparu cyfleoedd i bobl fwynhau cymdeithasu.

- Bwyty gyda golygfeydd o'r môr
- Lle golchi dillad
- Ystafell i westeion
- Lle storio sgwter symudedd
- Ystafell ymolchi gyda chymorth
- Lleoedd eistedd i gymdeithasu
- Gerddi wedi'u tirlunio
- Lleoedd parcio

GWASANAETHAU A DDARPERIR

Tai

Darperir help pe bai angen cymorth arnoch i reoli eich tenantiaeth a thalu eich rhent.

Adeilad

Rheolir yr adeilad er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda a bod gwasanaethau safle yn cael eu darparu, gan ddarparu amgylchedd diogel a chyffyrddus.

Glanhau

Mae'r ardaloedd cymunol yn cael eu cadw'n lân, yn daclus ac yn barod i'w defnyddio, gan sicrhau bod eich amgylchedd yn ddymunol ac yn ddeniadol.

Cymorth

Mae cefnogaeth ar y safle i sicrhau eich bod yn cael y cyfle gorau i gynnal ansawdd bywyd, iechyd a lles.

Bwyty / Bistro

Mae'r gwasanaeth arlwyo yn gweini prydau bwyd a lluniaeth trwy gydol y dydd. Mae yna fwydlen helaeth sy'n cynnig dewis o fwyd blasus i chi ei fwynhau gydag ymwelwyr mewn lleoliad hamddenol.

Mae'r bwyty'n agor 11am tan 6pm ac yn cynnig gwasanaeth danfon i'ch cartref os yw'n well gennych. Mae'n lle gwych i gwrdd â ffrindiau a theulu am bryd o fwyd neu baned a sgwrs.

GOFAL A CHYMORTH

Mae gwasanaeth gofal a chymorth ar y safle ar gael 24/7 a gall yr holl breswylwyr dderbyn cefnogaeth.

Mae'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth hwn yn darparu help mewn argyfwng ac yn unol â chynlluniau gofal unigol a darparu gwasanaeth, yn unol ag asesiad yr awdurdod lleol.

Fel rhan o ddull galluogi, darperir gofal a chymorth yn ôl yr angen a gall gynnwys help gydag ymolchi a gwisgo, meddyginiaeth a golchi dillad os bernir bod angen hynny yn dilyn asesiad.

Mae'r gwasanaeth yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gefnogi preswylwyr i wneud yr hyn sydd bwysicaf iddynt yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

TALIADAU

Mae yna daliadau gwahanol sy'n ffurfio'r costau byw ym Maes y Môr.

Rhent

Y swm a godir am rentu eich cartref, sy'n cynnwys cynnal a chadw a thrwsio'r adeilad.

Taliadau Gwasanaeth

Ceir 2 fath o daliad gwasanaeth:

1. Taliadau Gwasanaeth Cymwys

Os oes gennych yr hawl i gael Budd-dal Tai/Credyd Cynhwysol, telir rhai o'r taliadau hyn neu'r holl daliadau hyn.

- Rheolwr Gofal Ychwanegol/Rheoli adeilad
- Garddio
- Glanhau'r ardaloedd cymunol
- Gwres, golau a chyflenwadau dŵr i'r ardaloedd cymunol
- Adnewyddu offer
- Contractau cynnal a chadw
- Amrywiol ee. darparu'r offer golchi dillad ac yswiriant y lifft
- Tâl Rheoli – cost y staffio a'r gorbenion er mwyn darparu gwasanaethau eich cynllun

2. Taliadau nad ydynt yn Gymwys

Hyd yn oed os oes gennych yr hawl i gael Budd-dal Tai/Credyd Cynhwysol, ni chaiff unrhyw rai o'r taliadau hyn eu cynnwys.

- Tâl fflat unigol – y tâl am y cyflenwadau dŵr a gwres i bob fflat
- Y gwasanaeth arlwyo – y tâl am bryd 3 chwrs bob dydd

Pennir a thelir y rhent a'r taliadau gwasanaeth i Dai Wales & West ac nid ydynt yn cynnwys y costau canlynol:

- Cyflenwad trydan eich fflat
- Taliadau ffôn
- Pecynnau teledu fel Sky
- Treth Gyngor
- Glanhau eich fflat
- Unrhyw ofal a chymorth rheolaidd yr ydych yn ei gael

Tâl Gofal a Chymorth

Mae'r tâl a godir gan Gyngor Sir Ceredigion am y gofal a'r cymorth a ddarperir ym Maes y Môr yn unol â chynlluniau gofal a chyflenwi gwasanaethau unigol.

Asesir preswylwyr yn ariannol ar eu gallu i dalu am wasanaethau gofal a bydd trefniadau'n cael eu gwneud gan yr awdurdod lleol i gynnal asesiad ariannol.

Mae'r tâl hwn ar wahân i'r rhent a thaliadau gwasanaeth a amlinellwyd gan Tai Wales & West am fyw ym Maes y Môr.

SUT I WNEUD CAIS

Cyngor Sir Ceredigion
Ar-lein: ceredigionhousingoptions.cymru
E-bost: housingregister@ceredigion.gov.uk
Ffoniwch: 01545 574123

YMHOLIADAU CYFFREDINOL

Tai Wales & West
E-bost: contactus@wwha.co.uk
Ffoniwch: 0800 052 2526

BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?

Ar ôl i chi gofrestru gyda Chyngor Sir Ceredigion, cysylltir â chi maes o law fel y gellir trefnu ymweliad cartref.

Yn dilyn yr ymweliad cartref, bydd eich amgylchiadau'n cael eu hasesu i ddeall eich anghenion o ran gofal a chefnogaeth a beth sy'n bwysig i chi.

Os gall Maes y Môr ddiwallu eich anghenion fe'ch hysbysir a bydd eich cais yn cael ei roi ar restr aros yn barod i'w ystyried ar gyfer rhandy.

Gwneir cynigion o safbwynt llety i bobl ar y rhestr aros.

Os na fyddwch yn llwyddiannus pan fydd Maes y Môr yn agor i ddechrau, bydd eich enw yn aros ar y rhestr i'w ystyried ar gyfer lleoedd gwag yn y dyfodol.